Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 5 – Tŷ Hywel

Dyddiad: Dydd Iau, 5 Gorffennaf 2018

Amser: 09.05 – 11.27

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4842

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Simon Thomas AC (Cadeirydd) Neil Hamilton AC Mike Hedges AC Jane Hutt AC David Rees AC Mark Reckless AC
Tystion:	Alison Gerrard, Swyddfa Archwilio Cymru Matthew Hockridge, Swyddfa Archwilio Cymru Steve O'Donoghue, Swyddfa Archwilio Cymru Martin Peters, Swyddfa Archwilio Cymru Huw Vaughan Thomas CBE, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Georgina Owen (Dirprwy Glerc) Martin Jennings (Ymchwilydd)

	Owen Holzinger (Ymchwilydd) Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol)

1 Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2018-19: Trafod yr adroddiad drafft

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad ar ôl gwneud rhai mân newidiadau.

1.2 Roedd Mark Reckless AC yn absennol ar gyfer yr eitem hon.

2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC a Nick Ramsay AC.

2.2 Croesawodd y Cadeirydd Mark Reckless AC a oedd yn dirprwyo dros Nick Ramsay AC.

3 Papur(au) i'w nodi

3.1 Nodwyd y papur.

4 Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017-18 a Chynllun Blynyddol 2018-19: Sesiwn dystiolaeth

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru; Alison Gerrard, Aelod o'r Bwrdd, Swyddfa Archwilio Cymru; Steve O'Donoghue, Cyfarwyddwr Cyllid, Swyddfa Archwilio Cymru a Matthew Hockridge, Pennaeth Cynllunio ac Adrodd, Swyddfa Archwilio Cymru am Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017-18 a Chynllun Blynyddol 2018-19.

5 Trafod cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013: Sesiwn dystiolaeth

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru; Alison Gerrard, Aelod o'r Bwrdd, Swyddfa Archwilio Cymru; Steve O'Donoghue, Cyfarwyddwr Cyllid, Swyddfa Archwilio Cymru; a Martin Peters, Pennaeth Cyfraith a Moeseg, Swyddfa Archwilio Cymru am ystyried cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

7 Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017-18 a Chynllun Blynyddol 2018-19: Trafod y dystiolaeth

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

8 Trafod cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013: Trafod y dystiolaeth

8.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

9 Trafod penodi Archwilydd Cyffredinol Cymru

9.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y Memorandwm Swyddog Cyfrifyddu a nododd y telerau a'r amodau a'r trefniadau cydnabyddiaeth ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru nesaf.

10 Dull ar gyfer Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20

10.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ei ddull ar gyfer craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20.

10.2 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus, a hynny yn ystod toriad yr haf, ar y cynigion ar gyfer y gyllideb ddrafft er mwyn llywio gwaith craffu'r Pwyllgor.

11 Trafod proses ddeddfwriaethol ar gyfer y gyllideb

11.1 Nododd y Pwyllgor y papur ac ystyriodd y camau nesaf.

12 Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft

12.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad.

12.2 Roedd Mark Reckless AC yn absennol ar gyfer yr eitem hon.